# Diogelu Corfforaethol

# CANLLAW CYFLYM







## Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb

Nodir hyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu bod angen i bawb fod yn ymwybodol o ddiogelu a pham ei fod yn bwysig.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Beth mae Diogelu yn ei olygu?

Diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth, niwed neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion i atal camdriniaeth, niwed neu esgeulustod gymaint â phosib.

**Waeth p'un a ydyn ni'n ifanc neu'n hen, mae gan bob un ohonom yr hawl i:**

- fyw ein bywydau ein hunain, heb niwed neu ofn
- cael ein trin â pharch
- gwneud ein dewisiadau a'n penderfyniadau ein hunain, codi llais drosom ein hunain a chael ein gwrando arnom

## Categorïau Camdriniaeth

**Yng Nghymru, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi pum categori o gamdriniaeth:**

### 1. Cam-drin Corfforol

Ystyr cam-drin corfforol yw brifo plentyn neu oedolyn yn fwriadol. Gall fod yn ddigwyddiad untro neu'n gyfres o ddigwyddiadau. **Enghreifftiau:**

- bwrw
- slapio
- gwthio
- pinsio
- llosgi

### 2. Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn digwydd pan fydd y dioddefwr yn rhan o weithgareddau neu berthnasau rhywiol nad ydynt wedi rhoi caniatâd amdanynt neu nad ydynt yn eu deall yn llawn, neu os ydynt yn blentyn. **Enghreifftiau:**

- treisio neu ymosodiad rhywiol
- dinoethi anweddus
- treiddio, neu geisio treiddio, mannau personol o'r corff
- aflonyddu rhywiol
- gorfodi rhywun i wylio gweithredoedd rhywiol neu bornograffi

### 3. Cam-drin emosiynol neu seicolegol

Mae cam-drin emosiynol neu seicolegol yn digwydd pan fydd hunanhyder person yn cael ei danseilio gan fygythiadau, sarhau neu sylwadau diraddiol. **Enghreifftiau:**

- bwlio
- bygythiadau o niwed neu gael eu gadael
- anwybyddu
- gweiddi neu regi
- rheoli ymddygiad, bygythiadau

### 4. Esgeulustod

Methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn yw esgeulustod, sy'n debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a lles person.

**Gallai'ch gweithredoedd helpu i gadw rhywun yn ddiogel.**

**Enghreifftiau:**

- gall fod o ganlyniad i weithredoedd bwriadol neu anfwriadol, neu fethiant i weithredu
- mae hyn yn cynnwys peidio â rhoi'r gorau i ymddygiad sy'n niweidiol iddyn nhw neu eraill
- gall fod yn ddigwyddiad untro neu'n gyfres o ddigwyddiadau

### 5. Cam-drin Ariannol

Mae cam-drin ariannol yn digwydd pan fydd rhywun yn defnyddio arian neu eiddo person arall yn amhriodol. **Enghreifftiau:**

- dwyn eitemau neu arian
- pwysau i roi arian neu eitemau
- tynnu arian allan heb esboniad
- diddordeb anarferol gan drydydd parti mewn materion ariannol
- pryniant sy'n ddigyswllt i anghenion yr unigolyn, fel car neu wyliau

## Ardaloedd Risg

### 1. E-ddiogelwch

Yn aml, diffinnir e-ddiogelwch fel y defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg. Mae hyn yn cynnwys defnydd o'r rhyngrwyd a dulliau eraill o gyfathrebu gan ddefnyddio cyfryngau electronig (megis llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, dyfeisiau gêm ac e-bost).

### 2. Cam-drin domestig

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng pobl sy'n hŷn nag 16 oed ac sydd yn, neu sydd wedi bod yn, bartneriaid neu aelodau teulu agos, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb.

### 3. Caethwasiaeth Fodern

Any incident, or pattern of incidents, of controlling, coercive or threatening behavior, violence or abuse between those aged 16 years or over who are, or have been, intimate partners or family members, regardless of gender or sexuality.

### 4. Masnachu pobl

Math o gaethwasiaeth yw masnachu pobl. **Mae'n cynnwys:**

- gorfodi plant ac oedolion i symud er mwyn iddynt gael eu hecsbloetio mewn rhyw ffordd
- eu symud i le arall o fewn un wlad neu, yn aml, wlad arall
- defnyddio bygythiadau, grym neu dwyll i wneud iddyn nhw wneud rhywbeth yn erbyn eu hewyllys
- eu defnyddio i wneud arian neu ddarparu gwasanaethau i'w masnachwyr
- gallant edrych fel eu bod heb eu bwydo'n iawn, yn sâl neu'n cael eu hanafu neu'n ymddangos yn ofnus, efallai eu bod yn amharod i siarad neu efallai eu bod yn byw mewn tai gorlawn

### 5. Camfanteisio rhywiol

Mae camfanteisio'n rhywiol yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant neu oedolion sy'n wynebu risg i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol yn gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb.

### 6. Priodas dan orfod

Mae priodas dan orfod yn unrhyw briodas lle nad yw (neu na all) un neu'r ddau berson yn cydsynio i'r briodas a'r pwysau, neu mae cam-drin yn cael ei ddefnyddio.

### 7. Anffurfio organau cenhedlu benywod

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB) yn weithdrefn lle mae organau rhywiol benywaidd yn cael eu torri, eu hanafu neu eu newid yn fwriadol, ond lle nad oes rheswm meddygol dros wneud hyn..

### 8. Trosedd Casineb

Mae casineb yn derm cryf sy'n mynd y tu hwnt i achosi trosedd neu elyniaeth yn unig. Mae trosedd casineb yn unrhyw drosedd a gyflawnir yn erbyn person neu eiddo sy'n cael ei ysgogi gan gasineb troseddwr at rywun oherwydd ei:

- hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol
- crefydd
- rhywedd a hunaniaeth rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol
- anabledd

### 9. Radicaleiddio

Proses lle daw unigolyn neu grŵp i fabwysiadu delfrydau a dyheadau gwleidyddol, cymdeithasol neu grefyddol cynyddol eithafol a all eu gosod nhw neu'r cyhoedd mewn perygl os ydynt yn gweithredu ar y credoau hynny. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i adnabod unigolion a theuluoedd bregus sydd mewn perygl o radicaleiddio o bob math o eithafiaeth.

### 10. Cam-drin sefydliadol

Gall cam-drin sefydliadol ddigwydd mewn unrhyw leoliad neu mewn cartref unigolyn, lle mae'r gofal yn anhyblyg ac yn ddiraddiol.

## Beth yw Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)?

### Beth yw Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)?

*Y person a nodwyd yn y sefydliad sydd ar gael i drafod pryderon diogelu. Dylid ymgynghori ag ef pan fo'n bosibl o ran p'un a ddylid codi pryderon diogelu gyda'r awdurdod lleol; a fydd yn rheoli unrhyw gamau uniongyrchol sy'n ofynnol i sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag cael ei gam-drin. Dylai'r holl ymarferwyr wybod pwy y dylid cysylltu â nhw yn eu hasiantaeth am gyngor ac ni ddylent oedi cyn trafod eu pryderon waeth pa mor fychan y gallant ymddangos.*

## Pwy sydd â chyfrifoldeb i adrodd? ...

## Pob un ohonom!

Mae gennych gyfrifoldeb i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os oes gennych bryderon fod plentyn neu oedolyn mewn perygl:

- yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso;
- wedi cael ei gam-drin a'i esgeuluso;
- yn debygol o fod mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod.

**NID MATER O DDEWIS PERSONOL YW HYN!**

## Beth ddylech chi ei wneud pan fydd plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl yn dweud rhywbeth wrthych chi?

### DYLECH

- ✓ bwyllo
- ✓ gwrando'n ofalus
- ✓ ei gymryd o ddifri
- ✓ dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg ei fod wedi gwneud y peth iawn trwy ddweud wrthych chi
- ✓ esbonio gyda phwy mae angen rhannu'r wybodaeth
- ✓ dilyn gweithdrefn eich sefydliad
- ✓ gwneud nodiadau cywir gan ddefnyddio'r plentyn neu'r oedolyn yng ngeiriau risg ei hun
- ✓ ymgynghori ar unwaith (yr un diwrnod) â'r person/arweinydd dynodedig neu'ch rheolwr llinell

### NI DDYLECH

- × ymateb yn gryf, er enghraifft, drwy ddweud "dyna ofnadwy"
- × stopio rhywun sy'n siarad yn rhydd
- × neidio i gasgliadau, yn enwedig am y cam-driniwr
- × gofyn cwestiynau arweiniol
- × defnyddio eich geiriau eich hun i ddisgrifio digwyddiadau
- × ymchwilio
- × addo cyfrinachedd
- × delio ag ef ar eich pen eich hun
- × cysylltu â'r cam-driniwr honedig.

## Adrodd

Dylech wneud adroddiad hyd yn oed os nad oes gennych lawer o wybodaeth. Ond, os yw'n bosib:

- canolbwyntiwch ar arwyddion a symptomau camdriniaeth a/neu esgeulustod posib
- byddwch yn glir
- nodwch fanylion eich pryder
- cofnodwch y wybodaeth



**Os oes pryderon ar unwaith am ddiogelwch plentyn neu oedolyn neu drosedd wedi digwydd, dylech ffonio'r heddlu.**

# Rhifau Cyswllt

- Os ydych yn credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol, ymatebwch yn syth - ffoniwch **999** a dweud wrth y gweithredwr ffôn beth sy'n digwydd.
- Os ydych yn meddwl neu'n credu bod oedolyn yn cael ei gam-drin, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Oedolion drwy ffonio: **029 2233 0888**
- Os ydych yn credu bod plentyn mewn perygl, nad yw'n cael gofal cywir neu os oes gennych bryderon ynghylch ei les, cysylltwch â ni ar: **03000 133 133** neu codwch bryder ar-lein yma **Ffurflen gymorth neu niwed | Cyngor Caerdydd**
- Os oes gennych bryderon y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch y Tîm Dyletswydd Brys ar: **029 2078 8570**




CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD